# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Rhoddwyd rhybudd)

Calgary Dental, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Dyddiad arolygu: 8 Mai 2017

Dyddiad cyhoeddi: 9 Awst 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** 0300 062 8163

**E-bost:** hiw@wales.gsi.gov.uk

**Ffacs:** **0300 062 8387**
**Gwefan:** **www.hiw.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-4734-9595-1



© Hawlfraint y Goron 2017

# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom ........ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ........ 6

3. Yr hyn a ganfuom ........ 7

Ansawdd profiad y claf ........ 8

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ........ 12

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ........ 18

4. Beth nesaf? ........ 21

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol ........ 22

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ........ 23

Atodiad B – Cynllun gwella brys ........ 24

Atodiad C – Cynllun gwella ........ 25

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio pob gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Pwyslais ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: rydym yn agored ac yn onest yn y ffordd rydym yn gweithredu**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn**
- **Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau yn fewnol ac allanol**
- **Proffesiynol: rydym yn gweithredu gyda dull effeithlon, effeithiol a chymesur.**

# Ein blaenoriaethau

**Drwy ein gwaith rydym yn anelu i:**

| | |
|---|---|
| **Darparu sicrwydd:** | **Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ddeintyddfa Calgary Dental, East Street, Llanilltud Fawr, CF61 1XY o fewn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 8 Mai 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys rheolwr arolygu AGIC (arweinydd yr arolygiad) ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Edrychodd AGIC ar y ffordd yr oedd y gwasanaeth yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod Calgary Dental yn darparu gofal diogel ac effeithiol, fodd bynnag, canfuwyd rhai mannau i'w gwella er mwyn i'r ddeintyddfa fodloni'r safonau a'r rheoliadau perthnasol.

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth a ddarperir
- Gwelwyd bod yr aelodau staff yn rhyngweithio'n gwrtais gyda chleifion
- Roedd rhai o'r cyfleusterau clinigol yn cynnwys offer da, yn lân ac yn daclus
- Roedd dogfennaeth a gwybodaeth ar gael a oedd yn dangos bod offer pelydr-X a dadheintio'n cael ei ddefnyddio gyda'r nod o hybu diogelwch y staff a'r cleifion
- Dywedodd yr aelodau staff wrthym eu bod yn teimlo bod perchennog a thîm ehangach y ddeintyddfa'n eu cynorthwyo.

Gwnaethom argymell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Roedd angen adolygiad o rai polisïau a gweithdrefnau
- Roedd angen rhoi sylw i lendid a llawr un feddygfa
- Roedd angen gweithredu proses archwilio rymus.

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Calgary Dental yn darparu gwasanaethau i gleifion yn Llanilltud Fawr. Mae'r ddeintyddfa'n rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir o fewn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae'r ddeintyddfa'n cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys un deintydd, hylenydd, tri nyrs deintyddol a dau aelod o staff deintyddol.

Mae'r ddeintyddfa'n darparu amrywiaeth o wasanaethau'r GIG a gwasanaethau deintyddol cyffredinol preifat.

## Ansawdd profiad y claf

*Buom yn siarad gyda'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle bo’n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i’n dull o arolygu.*

Gwelsom fod y cleifion a oedd yn ymweld â'r ddeintyddfa'n cael eu trin ag urddas, parch a charedigrwydd gan dîm y ddeintyddfa. Roedd y cleifion a roddodd sylwadau'n dangos eu bod yn fodlon iawn â'r gwasanaeth yr oeddent wedi ei dderbyn.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y ddeintyddfa i roi holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn gofyn eu barn am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Llenwyd a dychwelwyd cyfanswm o 11 holiadur. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Dim modd gwella (y gwasanaeth a ddarperir gan y ddeintyddfa). Cael y gwasanaeth y byddaf ei angen pan fyddaf ei angen. Glân, cyfeillgar a phroffesiynol."*
>
> *"Rydw i wedi bod yn glaf gyda'r ddeintyddfa am flynyddoedd lawer ac mae'r gwasanaeth rwyf wedi’i dderbyn wedi bod yn ardderchog. Dydw i ddim yn credu bod angen gwella unrhyw beth ynglŷn ag ansawdd y gofal.*
>
> *"Amhosibl" (mewn ymateb i 'sut gallai'r ddeintyddfa wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu?)*

### Cadw’n iach

Gwelsom fod nifer o daflenni hybu iechyd ar gael i'r cleifion er mwyn eu helpu i hybu bod angen iddynt ofalu am eu hiechyd a'u hylendid geneuol eu hunain.

Dywedodd pob claf  a lenwodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi siarad gyda nhw ynglŷn â sut i gadw eu cegau a'u dannedd yn lân. Heb eithriad, dywedodd pob un o'r cleifion a lenwodd holiadur eu bod wedi cael cyfrannu gymaint ag yr oeddent yn dymuno at unrhyw benderfyniadau a wnaed ynglŷn â'r driniaeth a dderbyniwyd.

## Gofal ag Urddas

Gwelsom aelodau staff yn siarad gyda chleifion mewn modd cyfeillgar, parchus a phroffesiynol. Roeddent yn ymddangos yn dîm bychan, cyfeillgar ac fe'u gwelsom yn rhyngweithio'n gwrtais â'r cleifion.

Roedd pob un o'r cleifion a lenwodd holiadur yn cytuno eu bod wedi eu trin gyda pharch wrth ymweld â'r ddeintyddfa

### Gwybodaeth cleifion

Roedd y ddeintyddfa'n darparu amrywiaeth o driniaethau preifat a thriniaethau'r GIG. Roedd gwybodaeth am brisiau triniaethau deintyddol preifat ar gael i'w gweld yn yr ystafell aros, yn ogystal â phrisiau triniaethau deintyddol y GIG. Roedd hyn yn golygu bod y cleifion yn cael mynediad rhwydd i wybodaeth am bris eu triniaeth a dywedodd bron pob claf a lenwodd holiadur wrthym eu bod yn gwybod sut roedd pris eu triniaeth yn cael ei gyfrifo.

Roedd gwybodaeth gyffredinol ynglŷn â'r ddeintyddfa ar gael ar ei gwefan ac mewn taflen wybodaeth i gleifion.

Heb eithriad, dywedodd pob claf a lenwodd holiadur wrthym eu bod wedi derbyn gwybodaeth ynglŷn â'u triniaeth ddeintyddol, gan gynnwys yr opsiynau oedd ar gael ar gyfer gwahanol driniaethau a'u prisiau. Gwelsom dystiolaeth hefyd o gynllunio triniaethau ac opsiynau wedi eu nodi mewn sampl o gofnodion cleifion. Roedd hyn yn golygu bod modd i gleifion wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth.

Gwelsom fod gwybodaeth am gleifion wedi ei storio'n ddiogel mewn cabinetau ar glo er mwyn sicrhau bod gwybodaeth bersonol a sensitif yn cael ei diogelu.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn cael eu cyfarch yn yr iaith o'u dewis gan aelodau staff y ddeintyddfa bob amser. Gwelsom fod rhywfaint o wybodaeth, sef polisi cwynion y ddeintyddfa, yn cael ei harddangos yn y Gymraeg. Dywedodd pob claf a lenwodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi eu cynorthwyo i ddeall yr holl opsiynau oedd ar gael iddynt pan oedd angen triniaeth.

## Gofal amserol

Gwelsom fod y ddeintyddfa'n gwneud ymdrech i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld mewn modd amserol. Disgrifiodd yr aelodau staff y broses a

ddefnyddiwyd er mwyn rhoi gwybod i gleifion am unrhyw newid i amser eu hapwyntiadau.

Roedd rhif ffôn y tu allan i oriau ar gael i gleifion y GIG pe byddai arnynt angen triniaeth frys y tu allan i oriau'r ddeintyddfa a dywedodd pob claf ond un a lenwodd yr holiadur eu bod yn gwybod sut i ddefnyddio'r gwasanaeth pe byddai ganddynt broblem ddeintyddol. Roedd y rhif ffôn wedi ei arddangos yn ffenestr y ddeintyddfa ac ar neges ffôn ateb y ddeintyddfa. Nid oedd rhif cyswllt ar gyfer cleifion sy'n talu drwy gynllun aelodaeth preifat ar gael yn rhwydd. Roeddem yn argymell y dylai'r ddeintyddfa sicrhau bod y rhif ffôn cyswllt ar gael i gleifion preifat rhag ofn y bydd angen gofal deintyddol y tu allan i oriau'r ddeintyddfa. Cytunodd perchennog y ddeintyddfa y byddai'n gwneud hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r ddeintyddfa ystyried trefniadau ar gyfer rhoi'r rhif cyswllt ar gyfer gofal deintyddol y tu allan i oriau i gleifion preifat.

## Gofal Unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Dywedodd pob claf wrthym eu bod wedi cael gwybodaeth ynglŷn â chadw eu cegau a'u dannedd yn iach. Edrychwyd ar sampl o gofnodion cleifion a gwelwyd fod pob opsiwn triniaeth wedi ei chofnodi a bod caniatâd wedi ei rhoi ar gyfer y driniaeth gan bob claf.

### Hawliau pobl

Roedd y ddeintyddfa wedi ei lleoli mewn adeilad dau lawr, gydag un feddygfa ddeintyddol ar y llawr isaf ac un ar y llawr cyntaf. Roedd stepen fechan yn arwain i'r ddeintyddfa o'r feddygfa. Dywedwyd wrthym y byddai cleifion a oedd yn cael anhawster i symud yn cael cymorth i fynd i mewn i'r adeilad ac y byddai gwasanaethau deintyddol yn cael eu darparu yn y feddygfa ar y llawr isaf.

### Gwrando a dysgu o adborth

Gwelsom fod gan y ddeintyddfa weithdrefn gwynion ysgrifenedig. Roedd gwybodaeth i gleifion ynglŷn â mynegi pryder (cwyn) wedi ei harddangos yn y dderbynfa. Roeddem yn argymell bod angen diweddaru'r broses gwynion ar gyfer cleifion y GIG fel ei bod yn cynnwys manylion cyswllt y bwrdd iechyd yn unol â phroses Gweithio i Wella GIG Cymru[1]. Roeddem hefyd yn argymell bod y ddeintyddfa'n cynnwys eu proses gwynion, ar gyfer cleifion preifat a chleifion y GIG, ar eu gwefan. Cytunodd perchennog y ddeintyddfa y byddai'n gwneud hynny. Gwelsom fod gan y ddeintyddfa lyfr cwynion ar gyfer cofnodi unrhyw gwynion a dderbyniwyd, ac roedd un gŵyn wedi ei chofnodi. Roeddem yn cynghori'r ddeintyddfa i gofnodi unrhyw gwynion a dderbyniwyd ar lafar, er mwyn iddynt gael adolygu a gweithredu i ddatrys problemau a rhoi adborth i gleifion ynglŷn â'r camau a gymerwyd. Cytunodd perchennog y ddeintyddfa y byddai'n gwneud hynny.

Gwelsom fod modd i gleifion roi adborth ar y gwasanaethau a ddarparwyd drwy flwch sylwadau yn nerbynfa'r ddeintyddfa. Dywedwyd wrthym y byddai proses o ofyn barn cleifion drwy holiaduron ffurfiol yn cael ei gweithredu cyn bo hir.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r ddeintyddfa ddiweddaru eu proses gwynion fel ei bod yn cynnwys y manylion cyswllt cywir ar gyfer y bwrdd iechyd yn unol â phroses Gweithio i Wella GIG Cymru.

Dylid cynnwys y weithdrefn gwynion ar wefan y ddeintyddfa.

[1] http://www.wales.nhs.uk/ourservices/publicaccountability/puttingthingsright

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Gwelsom fod y ddeintyddfa'n rhoi gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Roedd adeilad y ddeintyddfa'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda, tu mewn a thu allan.

Roedd cofnodion y cleifion yn fanwl ac yn cael eu cynnal yn dda ac yn dangos bod gofal a thriniaeth wedi eu cynllunio er mwyn hybu diogelwch a lles y cleifion.

Roedd dogfennaeth a gwybodaeth ar gael i ddangos bod offer pelydr-X a dadheintio'n cael ei defnyddio'n ddiogel.

Roedd angen rhai gwelliannau mewn un feddygfa er mwyn sicrhau ei bod yn bodloni'r safonau derbyniol.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, gwelsom fod trefniadau ar waith er mwyn sicrhau diogelwch a lles yr aelodau staff sy'n gweithio yn y ddeintyddfa a'r bobl sy'n ymweld â'r ddeintyddfa.

Roedd yn ymddangos bod yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda tu mewn a thu allan. Yn ystod taith o amgylch yr adeilad gwelsom fod bob rhan ohono'n lân, yn daclus ac nid oedd unrhyw beryglon. Roedd offer diogelwch tân ar gael mewn amrywiol leoliadau o gwmpas y ddeintyddfa a gwelsom ei fod wedi ei wasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn gweithio'n iawn.

Roedd Profion ar Offer Trydanol Symudol (PAT) yn y ddeintyddfa wedi eu cynnal o fewn y 12 mis diwethaf, er mwyn helpu i sicrhau bod yr offer yn ddiogel i'w ddefnyddio.

Roedd contract ar waith er mwyn cael gwared â gwastraff peryglus (clinigol) a gynhyrchwyd gan y ddeintyddfa. Gwelsom fod gwastraff peryglus yn cael ei storio'n ddiogel cyn i'r cwmni sydd wedi ei gontractio i gael gwared ohono ddod i'w nôl. Roedd offer gwahanu amalgam wedi ei osod er mwyn i ronynnau amalgam (ffurf ar sylwedd deintyddol sy'n cynnwys mercwri) gael ei dynnu o'r dŵr gwastraff cyn cael gwared ohono'n ddiogel. Roedd unrhyw wastraff peryglus (cyffredinol) yn cael ei gasglu drwy drefniadau gyda'r cyngor lleol.

### Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y ddeintyddfa ystafell ddadheintio arbennig ac roedd yn bodloni'r egwyddorion a amlinellir yn nogfen ganllaw a pholisi Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1)[2] yn gyffredinol.

Roedd offer dadheintio a chabinetau yn yr ystafelloedd dadheintio yn amlwg mewn cyflwr da. Rodd yr arwynebau gwaith a'r lloriau'n hawdd eu glanhau er mwyn hwyluso glanhau trylwyr a lleihau traws-heintio. Roedd y ddeintyddfa'n defnyddio un ffwrn aerglos[3] a gwelsom dystysgrif arolygiad yn dangos ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio. Roedd modd inni gadarnhau hefyd bod y ddeintyddfa'n cynnal gwiriadau ar yr offer ar ddechrau a diwedd y dydd. Fodd bynnag, ar ddiwrnod yr arolygiad, cadarnhaodd y ddeintyddfa nad oedd modd iddynt lawrlwytho'r data o'r ffwrn aerglos ynglŷn â chanlyniad y profion eraill a berfformiwyd ar y peiriant. Roeddem yn argymell bod y ddeintyddfa'n gofyn cyngor arbenigol gan y gweithgynhyrchwr fel blaenoriaeth er mwyn sicrhau bod modd iddynt lawrlwytho'r data oddi ar y peiriant. Cytunodd y ddeintyddfa y byddai hyn yn digwydd.

Dangosodd yr aelodau staff y broses ddadheintio a gwelsom dystysgrifau'n dangos bod yr aelodau staff clinigol i gyd wedi mynychu hyfforddiant ar ddadheintio. Roeddem yn argymell mannau lle'r oedd modd gwella'r broses ddadheintio yn ôl argymhelliad WHTM-01-5. Roedd hyn yn golygu symud y chwyddwydr archwilio goleuedig er mwyn caniatáu archwilio offerynnau cyn eu

[2] Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ynglŷn â dadheintio mewn practisiau gofal sylfaenol a phractisiau deintyddol cymunedol

[3] Siambr bwysedd yw ffwrn aerglos a ddefnyddir i sterileiddio offer drwy eu rhoi mewn stêm dirlawn pwysedd uchel.

sterileiddio yn hytrach na chyn eu sterileiddio . Roeddem yn cynghori'r aelodau staff hefyd i sgrwbio'r offerynnau o dan y dŵr er mwyn helpu i atal y dŵr rhag tasgu oddi ar yr offerynnau yn ystod y broses o lanhau â llaw. Rhoddodd y ddeintyddfa'r newidiadau hyn ar waith ar ddiwrnod yr arolygiad.

Canfuwyd bod yr offer a ddefnyddiwyd ar gyfer datblygu radiograffau'n cael ei defnyddio a'i storio yn yr ystafell ddadheintio. Roeddem yn awgrymu i berchennog y ddeintyddfa y dylid ystyried symud yr offer fel mai offer dadheintio yn unig sydd yn yr ystafell ddadheintio, ac roeddent yn barod i ystyried gwneud hynny.

Roedd offerynnau deintyddol wedi'u sterileiddio'n cael eu storio mewn bagiau wedi'u selio er mwyn atal traws-heintio. Roedd y dyddiadau yr oedd angen defnyddio neu ailbrosesu (glanhau neu sterileiddio) yr offerynnau wedi ei gofnodi ar y deunydd pacio'n unol â WHTM 01-05.

Edrychwyd ar yr holl gyfleusterau clinigol (meddygfeydd) yn y ddeintyddfa. Roedd yr un feddygfa a oedd yn cael ei defnyddio'n gyson mewn cyflwr da, yn lân a thaclus. Roedd y llawr a'r arwynebau yn y feddygfa'n rhwydd i'w glanhau er mwyn atal traws-heintio. Roedd yn ymddangos bod yr ail feddygfa mewn cyflwr lluddedig ac angen ei glanhau'n drylwyr. Argymhellwyd hyn i berchennog y ddeintyddfa. Roedd angen selio'r llawr yn y feddygfa gan fod rhigolau rhwng y paneli cyffiniol a allai roi lle i lwch a gweddillion gasglu. Argymhellwyd y dylai'r ddeintyddfa ystyried adnewyddu'r llawr neu wneud trefniadau addas ar gyfer selio'r mannau a nodwyd yn ystod yr arolygiad. Cytunodd perchennog y ddeintyddfa y byddai'n gwneud hynny.

Roedd y ddeintyddfa wedi cynnal archwiliad rheoli haint yn ddiweddar er mwyn canfod ffyrdd o ganfod mannau i'w gwella a'u datblygu fel rhan o weithgaredd sicrwydd ansawdd cyffredinol. Yng ngoleuni'r argymhellion a wnaed uchod, awgrymwyd y gallai'r ddeintyddfa fod eisiau cynnal archwiliad arall yn y dyfodol agos er mwyn gwerthuso unrhyw newidiadau a wnaed.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r ddeintyddfa sicrhau bod y llawr wedi ei selio'n briodol er mwyn atal dŵr, llwch a gweddillion rhag casglu yn y rhannau o lawr y feddygfa nad ydynt wedi eu selio.

### Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod offer a chyffuriau ar gael i'w defnyddio mewn argyfwng gyda chlaf (cwymp/llewyg), ac roeddent wedi eu storio'n ddiogel. Gwelsom gofnodion hefyd a oedd yn dangos bod cyffuriau ac offer yn cael eu gwirio'n rheolaidd.

Gwelsom dystysgrifau i ddangos bod yr holl aelodau staff wedi derbyn hyfforddiant adfywio anadlol (CPR) o fewn y 12 mis diwethaf.

### Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed

Roedd gan y ddeintyddfa weithdrefn er mwyn hybu a diogelu lles plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed, neu sydd mewn perygl. Gwelsom fod y polisïau diogelu wedi eu hadolygu'n ddiweddar. Roeddem yn argymell fodd bynnag y dylai'r polisïau diogelu fod yn fwy manwl er mwyn cynorthwyo staff pe byddai angen. Dylai'r polisi hefyd gynnwys manylion cyswllt perthnasol a chyfredol timau diogelu'r awdurdod lleol. Cytunodd perchennog y ddeintyddfa i ddiweddaru'r polisi. Gwelsom fod pob aelod o staff perthnasol wedi dilyn hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion a gwelsom dystysgrifau hyfforddiant i gadarnhau hynny.

Cadarnhaodd yr aelodau staff a siaradodd gyda ni eu bod yn teimlo bod modd iddynt godi unrhyw bryderon sy’n gysylltiedig â gwaith gydag uwch aelodau staff y ddeintyddfa, ac roeddent yn hyderus y byddai eu pryderon yn cael sylw.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r ddeintyddfa ddiweddaru eu polisi diogelu ar gyfer oedolion a phlant er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys gwybodaeth ddigon mawl ar gyfer y broses i'r staff rhag ofn y bydd angen. Dylai'r polisi hefyd gynnwys manylion cyswllt timau diogelu'r awdurdod lleol ar gyfer oedolion a phlant.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Daethom i'r casgliad bod gan y practis drefniadau ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig yn gywir (pelydr-X). Roedd hyn am fod y ddogfennaeth a'r wybodaeth angenrheidiol ynglŷn â defnyddio'r offer pelydr-X yn ddiogel ar gael ac yn gyfredol. Gwelsom dystysgrifau hyfforddiant yn dangos bod hyfforddiant ïoneiddio'r staff clinigol yn gyfredol a'u bod yn bodloni'r canllawiau a osodwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Canfuwyd fodd bynnag bod y switsh ynysu ar gyfer y peiriant pelydr-X mewn un feddygfa wedi ei leoli yn y man rheoledig. Roeddem yn argymell bod perchennog y ddeintyddfa'n gofyn cyngor ynglŷn â symud y switsh ynysu er mwyn sicrhau diogelwch cleifion ac aelodau staff.

Roedd delweddau pelydr-X yn cael eu prosesu'n awtomatig, fodd bynnag nid oedd gan y ddeintyddfa system ar waith i sicrhau bod ansawdd y delweddau pelydr-X a oedd yn cael eu prosesu o safon dderbyniol. Roeddem yn argymell y dylai'r ddeintyddfa gyflwyno gwiriad rheolaidd h.y. lletem grisiau[4], i ddangos effeithiolrwydd delweddau pelydr-X.

Nid oedd modd inni gadarnhau bod archwiliadau rheolaidd o ansawdd y prosesu pelydr-X wedi eu cynnal fel rhan o weithgaredd monitro sicrwydd ansawdd y ddeintyddfa. Mae'r archwiliadau hyn yn canfod problemau posibl gyda phrosesu delweddau pelydr-X ac yn dangos lle gellid gwneud gwelliannau yn ôl yr angen. Roeddem yn argymell y dylid rhoi hyn ar waith a chytunodd perchennog y ddeintyddfa i hynny.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r ddeintyddfa ofyn cyngor arbenigol mewn perthynas â symud switsh ynysu'r peiriant pelydr-X i fan y tu allan i'r man rheoledig ym meddygfa dau.

Dylai'r ddeintyddfa weithredu system reolaidd o wirio'r ffordd y caiff delweddau pelydr-X eu prosesu. Dylid cofnodi canlyniadau'r gwiriadau mewn cofnodlyfr.

Dylai'r ddeintyddfa weithredu archwiliadau sicrwydd ansawdd o'r delweddau pelydr-X a dynnir.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Er inni weld tystiolaeth bod y ddeintyddfa wedi cynnal archwiliad WHTM 01-05 o'u trefniadau dadheintio'n ddiweddar, ni welsom fod rhaglen ar waith ar gyfer cynnal ystod eang o archwiliadau clinigol gyda'r nod o ganfod meysydd i'w gwella. Trafodwyd hyn gyda pherchennog y ddeintyddfa ac argymell y dylid ystyried gweithredu rhaglen o archwiliadau dros y flwyddyn. Cytunodd y perchennog i hynny.

[4] Prawf sicrwydd ansawdd i fonitro'r prosesu ffilm a ddefnyddir mewn radiograffeg deintyddol.

Dywedwyd wrthym fod y ddeintyddfa yn y broses o gyflwyno offeryn Matrics Aeddfedrwydd Deintyddiaeth[5] er mwyn helpu i gyflwyno gofal o ansawdd uchel i gleifion. Roeddem yn argymell bod y ddeintyddfa'n parhau i weithredu'r broses hon.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r ddeintyddfa weithredu amrywiaeth o archwiliadau clinigol gyda'r bwriad i ganfod meysydd i'w gwella fel rhan o weithgaredd gwella ansawdd y ddeintyddfa. Dylid datblygu a monitro cynlluniau gwella fel y bo'n briodol.

## Cadw cofnodion

Ystyriwyd sampl o *gofnodion* deintyddol cleifion er mwyn asesu ansawdd y broses o gadw cofnodion. Roedd cofnodion y cleifion yn ddogfennau papur. Roedd y nodiadau'n fanwl ac yn dangos bod gofal a thriniaeth wedi ei chynllunio er mwyn hybu lles a diogelwch cleifion. Roeddem yn atgoffa perchennog y ddeintyddfa o bwysigrwydd sicrhau bod pob nodyn a wneir ar gofnod claf yn cael ei lofnodi gan y clinigwr, a chytunodd perchennog y practis i hynny.

Gwelsom fod rhai o'r cardiau cofnod papur mewn cyflwr gwael, er gwaethaf ymdrechion i'w hatgyweirio. Gwelsom fod radiograffau'n cael eu storio mewn amlenni papur yng nghardiau cofnod y cleifion. Awgrymwyd i berchennog y ddeintyddfa y byddai'n syniad da ystyried dull amgen o'u storio gan fod perygl o golli gwybodaeth a radiograffau neu berygl o'u rhoi yn y lle anghywir. Cytunodd perchennog y practis i hynny.

Yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) (IR(ME)R) 2000, roedd y rhesymau dros dynnu delweddau pelydr-X a chanfyddiadau'r deintydd o edrych arnynt wedi eu cofnodi.

---

[5] https://www.walesdeanery.org/improving-practice-quality/maturity-matrix-dentistry

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Y prif ddeintydd oedd yn berchen ar y ddeintyddfa a chanfuom fod y trefniadau ar gyfer rheoli'r ddeintyddfa o ddydd i ddydd mewn cyfnod o newid. Gwelsom fod amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar waith gyda'r nod o sicrhau diogelwch yr aelodau staff a'r cleifion.

Dywedodd yr aelodau staff wrthym eu bod yn teimlo bod tîm y practis cyfan yn gefnogol. Roeddent yn dweud hefyd eu bod yn cael cyfleoedd i fynychu hyfforddiant perthnasol.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Un deintydd sy'n berchen ar ac yn rheoli Calgary Dental ac fe'i cynorthwyir gan dîm o nyrsys deintyddol a staff derbynfa. Ar adeg arolygiad AGIC, roedd perchennog y ddeintyddfa wedi recriwtio rheolwr i'r ddeintyddfa dros dro er mwyn cynorthwyo'r perchennog i redeg y ddeintyddfa o ddydd i ddydd yn ystod ac ar ôl arolygiad AGIC. Dywedwyd wrthym fod gan berchennog y ddeintyddfa gynlluniau yn y dyfodol i hyfforddi aelod o staff presennol i fod yn gyfrifol am reoli'r ddeintyddfa. Pan oeddem yn canfod meysydd i'w gwella, dangosodd y perchennog ymrwymiad i fynd i'r afael â'r materion hyn yn gyflym.

Dywedodd yr aelodau staff a oedd yn gweithio ar ddiwrnod ein harolygiad eu bod yn teimlo eu bod yn cael digon o gymorth yn eu swyddi gan bob aelod o dîm y ddeintyddfa. Gwelsom fod yr aelodau staff yn glir ac yn wybodus ynglŷn â'u swyddi a'u cyfrifoldebau.

Dywedodd yr aelodau staff eu bod yn teimlo bod cyfathrebu da o fewn y ddeintyddfa. Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal. Yn fwy diweddar, roedd dull mwy ffurfiol o gynnal cyfarfodydd wedi ei sefydlu gyda chofnodion ysgrifenedig yn cael eu cynhyrchu. Dywedodd yr aelodau staff eu

bod yn teimlo bod modd iddynt drafod unrhyw faterion gyda phob aelod o dîm y staff.

Gwelsom fod amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar waith gyda'r nod o sicrhau diogelwch yr aelodau staff a'r cleifion. Gwelsom fod y rhan fwyaf o'r polisïau a'r gweithdrefnau wedi eu hadolygu ym mis Ebrill 2017, a byddai adolygiad arall yn digwydd ym mis Ebrill 2018. Roeddem yn argymell y dylai'r polisïau a'r gweithdrefnau hyn gynnwys rhif fersiwn er mwyn sicrhau bod yr holl aelodau staff yn gyfarwydd â'r polisi neu'r weithdrefn fwyaf diweddar. Roeddem hefyd yn argymell y dylai'r polisïau a'r gweithdrefnau fod yn benodol i'r feddygfa pan fo hynny'n briodol.

## Staff ac adnoddau

### Y gweithlu

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod yr aelodau staff wedi mynychu hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau perthnasol i'w swyddi. Roedd yr aelodau staff hefyd yn cadarnhau eu bod yn cael cymorth ac anogaeth gan y tîm rheoli i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi.

Er nad oedd yr aelodau staff wedi cael arfarniad o'u gwaith hyd yn hyn, dywedwyd wrthym y byddai arfarniadau staff yn cael eu cynnal yn y flwyddyn hon oedd ar ddod, ac roeddem yn argymell y ddeintyddfa i sicrhau bod y broses hon yn cael ei gweithredu'n llawn.

Gwelsom fod yr aelodau staff clinigol perthnasol wedi cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol er mwyn gweithio a bod ganddynt yswiriant indemniad.

Roedd cofnodion ar gael a oedd yn dangos bod y rhan fwyaf o'r aelodau staff wedi eu himiwneiddio yn erbyn Hepatitis B er mwyn amddiffyn cleifion ac amddiffyn eu hunain rhag haint. Nid oedd cofnodion un aelod o staff ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad, ac fe'u hanfonwyd ymlaen i AGIC ar ôl yr arolygiad. Roeddem yn argymell bod y ddeintyddfa'n sicrhau bod cofnodion o statws imiwneiddiad bob aelod o staff ar gael i AGIC gael eu gweld ar gais. Gwelsom hefyd fod y wybodaeth a ddarparwyd gan Feddyg Teulu ynglŷn â statws imiwneiddiad un aelod o staff yn aneglur mewn perthynas â dos atgyfnerthu. Roeddem yn argymell bod y ddeintyddfa'n gofyn cyngor eu tîm iechyd galwedigaethol ynglŷn â'r ymholiad hwn. Cytunodd y ddeintyddfa y byddai'n gwneud hynny.

Roedd y deintydd oedd yn gweithio yn y ddeintyddfa'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwelsom fod ei dystysgrif cofrestru AGIC wedi ei arddangos yn amlwg yn ôl y gofyn ar gyfer deintyddiaeth breifat.

Mae rheoliadau deintyddiaeth breifat yn gofyn bod pob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru'n meddu ar dystysgrif a gyflwynwyd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd o fewn y tair blynedd ddiwethaf. Gwelsom gadarnhad bod y ddeintyddfa wedi gwneud cais am dystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer pob un o aelodau staff y ddeintyddfa.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn cadw cofnodion imiwneiddio'r aelodau staff i gyd a sicrhau eu bod ar gael i AGIC.

# 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau sydd eu hangen a phryderon dybryd yn ystod ein harolygiad ac mae angen i'r gwasanaeth gymryd camau gweithredu yn eu cylch, mae'r rhain wedi'u nodi yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bo'n berthnasol):

- Atodiad A: Mae'n cynnwys crynodeb ynghylch unrhyw bryderon dybryd o ran diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae'n cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maen nhw'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae'n cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu maen nhw'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Datgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylder i ddarparu sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws adrannau/unedau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn o leiaf deuddeg wythnos o rybudd ymlaen llaw ynglŷn ag arolygiad. Mae hyn fel y bydd trefniadau yn gallu cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn peri cyn lleied o amhariad â phosibl i gleifion.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015. Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis 'Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith/yr effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen i'r pryderon hyn dderbyn sylw ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon dybryd a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni welwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |

## Atodiad B – Cynllun gwella brys

## Gwasanaeth: Calgary Dental

## Dyddiad yr arolygiad: 8 Mai 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maen nhw'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni chyflwynwyd unrhyw ofynion sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth:

## Enw (llythrennau bras):

## Swydd:

## Dyddiad:

## Atodiad C – Cynllun gwella

### Gwasanaeth: Calgary Dental

### Dyddiad yr arolygiad: 8 Mai 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y maen nhw'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Dylai'r ddeintyddfa ystyried trefniadau ar gyfer rhoi'r rhif cyswllt ar gyfer gofal deintyddol y tu allan i oriau i gleifion preifat. | 5.1 Mynediad amserol | Rydym yn rhoi rhif y tu allan i oriau i gleifion DPAS ar hyn o bryd. Byddwn yn darparu'r wybodaeth hon ar ein gwefan.<br><br>Rhif y tu allan i oriau i gael ei arddangos. JC Pugh 1-3 mis | JC Pugh | 1-3 mis |
| Dylai'r ddeintyddfa ddiweddaru eu proses gwynion fel ei bod yn cynnwys y manylion cyswllt cywir ar gyfer y bwrdd iechyd yn unol â phroses Gweithio i Wella GIG Cymru.<br><br>Dylid cynnwys y weithdrefn gwynion ar wefan y | 6.3 Gwrando a dysgu o adborth | Mae gan y dderbynfa daflenni'r GIG a thaflenni preifat a nodwyd hynny ar ddyddiad yr arolygiad. Mae'r hysbysiad cwynion wedi ei ddiweddaru | JC Pugh | Cwblhawyd |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| ddeintyddfa. | | | | |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Rhaid i'r ddeintyddfa sicrhau bod y llawr wedi ei selio'n briodol er mwyn atal dŵr, llwch a gweddillion rhag casglu yn y rhannau o lawr y feddygfa nad ydynt wedi eu selio. | 2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dad-halogi | Bydd y llawr yn cael ei selio | JC Pugh | 1-3 Mis |
| Dylai'r ddeintyddfa ddiweddaru eu polisi diogelu ar gyfer oedolion a phlant er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys gwybodaeth ddigon mawl ar gyfer y broses i'r staff rhag ofn y bydd angen. Dylai'r polisi hefyd gynnwys manylion cyswllt timau diogelu'r awdurdod lleol ar gyfer oedolion a phlant. | 2.7 Diogelu Plant a Diogelu Oedolion sy'n Wynebu Risg | Roedd y wybodaeth hon ar gael yn y brif ffeil ddiogelu. Fodd bynnag, bydd y polisi'n cael ei ddiweddaru | JC Pugh | Cwblhawyd |
| Dylai'r ddeintyddfa ofyn cyngor arbenigol mewn perthynas â symud switsh ynysu'r peiriant pelydr-x i fan y tu allan i'r man rheoledig ym meddygfa dau.<br><br>Dylai'r ddeintyddfa weithredu system reolaidd o wirio'r ffordd y caiff delweddau pelydr-x eu | 2.9 Dyfeisiau, Offer a Systemau Diagnostig Meddygol | Wedi cysylltu â Bowen Engineering a'r dasg wedi ei chwblhau.<br><br>Hyfforddiant staff ac archwiliadau wedi eu cychwyn | Bowen engineering/JC Pugh | Cwblhawyd<br><br>1-6 Mis |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| prosesu. Dylid cofnodi canlyniadau'r gwiriadau mewn cofnodlyfr.<br><br>Dylai'r ddeintyddfa weithredu archwiliadau sicrwydd ansawdd o'r delweddau pelydr-x a dynnir. | | | | |
| Dylai'r ddeintyddfa weithredu amrywiaeth o archwiliadau clinigol gyda'r bwriad i ganfod mannau i'w gwella fel rhan o weithgaredd gwella ansawdd y ddeintyddfa. Dylid datblygu a monitro cynlluniau gwella fel y bo'n briodol. | 3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol | Bydd archwiliadau'n cael eu trefnu | JC Pugh | 1-6 Mis |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn cadw cofnodion imiwneiddio'r aelodau staff i gyd a sicrhau eu bod ar gael i AGIC.<br><br>Rhaid i'r deintydd sy'n gweithio yn y ddeintyddfa ac sydd wedi cofrestru ag AGIC i ddarparu gwasanaethau deintyddol preifat gael tystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a sicrhau ei bod ar gael i AGIC ei | 7.1 Gweithlu | Mae pob tystysgrif imiwneiddiad bellach ar gael.<br><br>Tystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi eu gweithredu a byddant ar gael | JC Pugh | Cwblhawyd |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| gweld | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras):** **JC Pugh**

**Swydd:** **PERCHENNOG Y DDEINTYDDFA**

**Dyddiad:** **05/06/2017**